Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

# Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect

- Nodiadau arweiniad ar gyfer y daenlen adennill costau llawn a'r daenlen gyflogau

| | |
|---|---|
| | Chwefror 2006 |
| **Angen mwy o wybodaeth?** | Ewch i'n gwefan yn www.cronfagymunedolylg.org.uk |
| **Côd cyfeirio** | |
| **Hawlfraint** | © Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol |
| **Dylunio** | Graphicsi.com |
| **Ffotograffwyr** | |
| **Copïau pellach ar gael gan:** | cymru@cronfaloterifawr.org.uk<br>Ffôn: 0300 123 0735<br>Cyfnewid testun: 18001 + 0300 123 0735 |
| | Hefyd ar gael yn Saesneg ac ar gais mewn Braille, print bras ac ieithoedd cymunedol. |
| **Rydym yn gofalu am yr amgylchedd** | Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ceisio isafu ei heffaith amgylcheddol negyddol ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig. |
| **Ein hymrwymiad cyfle cyfartal** | Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ceisio mabwysiadu dull cynhwysfawr o sicrhau bod ymgeiswyr am grantiau a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg. Mae'n gyfrifoldeb i'r holl staff ac aelodau Bwrdd gynnal a gweithredu ein polisi cyfle cyfartal. |

# Nodiadau arweiniad Taenlen adennill costau llawn

Gellir lawrlwytho dwy daenlen i'ch helpu cyfrifo costau llawn eich prosiect:

- ►Y daenlen adennill costau llawn: Defnyddiwch y daenlen adennill costau llawn i amcangyfrif costau llawn eich prosiect a maint y grant rydych yn gofyn amdano gennym. Am enghraifft ymarferol, gweler enghraifft Canolfan Gymunedol Ioan Sant yn y llyfryn: “Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i Ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol”.
- ► Y daenlen cyflogau: Defnyddiwch y daenlen cyflogau i gyfrifo costau cyflogau llawn eich cyflogeion.

Mae wyth cam i'r daenlen. Dilynwch bob cam yn ôl ei drefn. Ar ôl cwblhau un cam, sgroliwch i lawr i gyrraedd y cam nesaf. Y camau yw:

- ► Nodwch fanylion am y prosiect a'r cyfnod y bydd y prosiect yn rhedeg.
- ► Nodwch gostau uniongyrchol y prosiect
- ► Disgrifiwch y mathau gwahanol o gostau cyffredinol yn eich prosiect a sut y caiff pob math ei rannu rhwng prosiectau eich mudiad.
- ► Nodwch sut caiff y costau cyffredinol eu rhannu rhwng prosiectau eich mudiad.
- ► Nodwch amcangyfrif o gostau cyffredinol eich mudiad.
- ► Cyfrifir costau llawn eich prosiect.
- ► Os byddwch yn codi cyfraniadau tuag at eich prosiect o ffynonellau eraill, nodwch y manylion yma.
- ► Mae'r cam hwn yn cyfrifo'r uchafswm cyfraniad y gallwn ei wneud tuag at eich prosiect.

Esbonnir pob cam yn fanylach ar y tudalennau a ganlyn.

## Fformatau taenlen

Mae'r daenlen adennill costau llawn ar gael mewn dau fformat:

- fel llyfr gwaith Microsoft Excel: sy'n gweithio gyda fersiynau 5.0, 95, 97, 2000, XP, 2003 a hwyrach o Microsoft Excel

Os nad ydych erioed wedi defnyddio taenlenni o'r blaen rydym yn argymell i chi gael cymorth cyn dechrau. Gallwch gyfeirio at Gymorth y meddalwedd hefyd.

- yn Excel dewiswch Help -> Microsoft Excel Help o far dewislen Excel

## Nodi rhifau

- dewiswch y cell perthnasol
- teipiwch y rhif gyda'r bysellfwrdd. Peidiwch â theipio arwydd £. Peidiwch â theipio comas. Er enghraifft: i nodi £1,250 teipiwch 1250 NID £1250 neu 1,250 neu £1,250
- gwasgwch Enter/Return (↵).

## Ychwanegu rhesi ychwanegol

Yng nghamau 2, 4, 5 a 7 gallai fod angen i chi ychwanegu rhesi at y gridiau mewnbynnu data. I ychwanegu rhesi, dewiswch gell yn y grid mewnbynnu data, yna:

- ym Microsoft Excel: o'r bar dewislen dewiswch Insert -> Rows

Bydd rhes newydd yn cael ei mewnosod yn y rhes uwchben y cell a ddewiswch.

Nodyn ar gyfer defnyddwyr Microsoft Excel fersiynau 5, 95, 97 a 2000: Yn ddiofyn mae celloedd penodol wedi'u diogelu. Mae hyn yn eich atal rhag golygu'r celloedd hyn ac fe'i dylunnir i ddiogelu fformiwlâu'r daenlen rhag difrod anfwriadol. Yn y fersiynau hyn o Excel mae diogelu celloedd yn eich atal rhag mewnosod rhesi newydd. I fewnosod rhesi newydd yn y fersiynau hyn mae'n rhaid i chi ddad-ddiogelu'r daenlen yn gyntaf. O'r bar dewislen dewiswch Tools -> Protection -> Unprotect Sheet. Ar ôl ychwanegu rhesi dylech ail-ddiogelu'r dalen waith i atal difrod anfwriadol i fformiwlâu.
O'r bar dewislen dewiswch Tools -> Protection -> Protect Sheet.

## Cam 1: Gwybodaeth am eich prosiect

**1.1 Enw'r mudiad**: Nodwch enw eich mudiad.

**1.2 Enw'r prosiect**: Nodwch enw'r prosiect rydych yn gofyn i ni ei ariannu.

**1.3 Blwyddyn ariannu**: Disgrifiwch ym mha flwyddyn y bydd eich prosiect yn digwydd. Er enghraifft, nodwch 2019 os bydd eich prosiect yn digwydd yn 2019. Os bydd eich prosiect yn rhedeg rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, nodwch 2019/2020.

Os bydd eich prosiect yn para am fwy na blwyddyn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni faint rydych eisiau i ni ei gyfrannu at eich prosiect ym mhob blwyddyn.
Mae'n rhaid i chi naill ai:

- greu taenlenni ar wahân ar gyfer bob blwyddyn neu
- greu taenlen ar gyfer y flwyddyn gyntaf, yna chwyddo'r ffigurau i gyfrifo'ch cais am ariannu ar gyfer y blynyddoedd canlynol. Bydd hyn yn briodol os bydd costau uniongyrchol eich prosiect, costau cyffredinol eich mudiad ac unrhyw incwm arall a godir ar gyfer eich prosiect o ffynonellau eraill yr un peth, yn amodol ar chwyddiant, yn y blynyddoedd a ganlyn.

**1.4 Wythnosau prosiect yn y flwyddyn ariannu**:

Os bydd eich prosiect yn rhedeg dim ond am ran o'r flwyddyn a ddisgrifir yn 1.3, nodwch am faint o wythnosau y bydd yn rhedeg. Os bydd y prosiect yn rhedeg am y flwyddyn gyfan, nodwch 52 neu gadewch yn wag.

**1.5 Canran o'r flwyddyn ariannu**: Dyma'r ganran o'r flwyddyn y bydd eich prosiect yn rhedeg.

## Cam 2: Nodwch gostau uniongyrchol eich prosiect

Yn y cam hwn rydych yn nodi costau uniongyrchol eich prosiect. Costau uniongyrchol eich prosiect yw'r costau y gellir eu priodoli'n glir ac yn uniongyrchol i'ch prosiect. Cyfeiriwch at y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol" am gymorth gydag adnabod costau uniongyrchol eich prosiect.

Dylech:

- nodi symiau mewn £ cyfan yn unig. Peidiwch â nodi ceiniogau; mae angen i chi nodi'r arwyddion £
- nodwch y costau disgwyliedig ar gyfer y cyfnod a ddisgrifir yng ngham 1. Cofiwch ddarparu ar gyfer chwyddiant os ydych yn seilio'r rhain ar gostau cyfredol. Os bydd eich prosiect yn rhedeg dim ond am ran o'r flwyddyn ariannu (gweler 1.3), dylech ddarparu ar gyfer hwn wrth gyfrifo costau. Er enghraifft, os bydd eich prosiect yn para am 30 wythnos, ac rydych yn disgwyl gwario £20 yr wythnos ar dreuliau gwirfoddolwyr, dylech nodi

  £600 (= 30 wythnos x £20) ar gyfer treuliau gwirfoddolwyr. Cofiwch hepgor yr arwydd £ wrth nod rhifau, a thalgrynnwch symiau i'r £ agosaf
- rhannwch gostau uniongyrchol eich prosiect rhwng costau refeniw a chostau cyfalaf. Mae costau cyfalaf yn daliadau sylweddol ar gyfer eitemau a fydd yn para am nifer o flynyddoedd, er enghraifft: dodrefn, cerbydau, cyfarpar a meddalwedd cyfrifiadurol. Cyfeiriwch at y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol" am gymorth. Nodwch gostau cyfalaf yn y golofn costau cyfalaf. Nodwch bob math arall o gost yn y golofn costau refeniw.

## Cam 3: Disgrifiwch sut caiff costau cyffredinol eich mudiad eu rhannu

Yma rydych yn disgrifio sut caiff costau cyffredinol eich mudiad eu rhannu rhwng prosiectau eich mudiad. Y dulliau cyffredinol o rannu costau cyffredinol yw:

- defnyddio'r nifer o staff sy'n gweithio ar bob prosiect
- defnyddio'r nifer o ddefnyddwyr ym mhob prosiect
- defnyddio'r arwynebedd llawr a ddefnyddir gan bob prosiect
- defnyddio oriau agor pob prosiect.

Mae'n rhaid i chi ddewis dull sy'n deg ac yn rhesymol. Dylai'r dull adlewyrchu'r ffordd y mae costau cyffredinol yn cael eu cynhyrchu. Er enghraifft, os yw rheolwr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn rheoli staff, gallai niferoedd staff fod yn ddull priodol o rannu costau'r rheolwr. Cyfeiriwch at y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol" am gymorth gyda dewis dull.

Os yw'n briodol rhannu'r holl gostau cyffredinol yn yr un ffordd, llenwch y golofn gyntaf (Cost Gyffredinol Math 1) a gadewch y ddwy golofn arall yn wag.

Weithiau nid yw'n briodol rhannu'r holl gostau cyffredinol yn yr un ffordd. Os daw mathau gwahanol o gost gyffredinol i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol, ac mae'r symiau dan sylw yn rhai sylweddol, dylech rannu pob math o gost gyffredinol ar wahân.

Gweler yr enghraifft Canolfan Gymunedol Ioan Sant yn y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol" am eglurhad. Mae costau'r adeilad yn sylweddol yng Nghanolfan Gymunedol Ioan Sant, ond nid yw rhai prosiectau'n defnyddio'r adeilad.
Fodd bynnag, mae angen cefnogaeth weinyddol a rheoli ar bob prosiect. Rhennir costau adeiladau trwy gyfrifo defnydd pob prosiect o'r adeilad, ond rhennir costau cefnogi gweinyddol a rheoli trwy gyfrifo nifer y staff sy'n gweithio ym mhob prosiect.

Mae'r daenlen yn galluogi chi i rannu costau cyffredinol mewn hyd at dair ffordd wahanol.

**3.1 Math o gost gyffredinol**:
Disgrifiwch y math o gost gyffredinol. Er enghraifft: gweinyddu a chefnogaeth, rheolaeth gyffredinol, costau adeiladau. Os yw'r holl gostau cyffredinol i'w rhannu yn yr un ffordd, llenwch "Pob Cost Gyffredinol" yn y golofn gyntaf (Cost Gyffredinol Math 1) a gadewch y colofnau eraill yn wag.

**3.2 Sut caiff y costau cyffredinol eu rhannu**:
Disgrifiwch sut caiff pob math o gost gyffredinol ei rannu rhwng prosiectau eich mudiad. Er enghraifft: nifer y staff, arwynebedd llawr a ddefnyddir, nifer y defnyddwyr. Os yw'r holl gostau cyffredinol i'w rhannu yn yr un ffordd, disgrifiwch sut caiff pob cost gyffredinol ei rhannu yn y golofn gyntaf (Cost Gyffredinol Math 1) a gadewch y colofnau eraill yn wag.

## Cam 4: Rhannwch y costau cyffredinol

Yn awr cyfrifwch gyfran eich prosiect o'r costau cyffredinol.

**4.1 : Eich prosiect:**
Mae'n rhaid i'r prosiect sy'n cael ei gostio fod yn y rhes gyntaf.

**4.2 Prosiectau eraill**:
Yn y golofn sydd wedi'i labelu fel “Prosiect”, disgrifiwch y prosiectau eraill yn eich mudiad. Mae'n rhaid i chi gynnwys pob prosiect yn y mudiad, ond nid oes angen rhestru pob prosiect arall ar wahân; er enghraifft, gallech chi nodi "Pob Prosiect Arall" yn yr ail res neu fe allech restru pob prosiect ar wahân.

**4.3 : Costau cyffredinol**:
Mae'r rhesi costau cyffredinol yn caniatáu i chi rannu costau cyffredinol rhwng mathau gwahanol. Gweler yr enghraifft Canolfan Gymunedol Ioan Sant yn y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol” am eglurhad.

Ar gyfer pob prosiect, nodwch y niferoedd a ddefnyddir i rannu'r costau cyffredinol yn y colofnau eraill. Er enghraifft, os ydych yn seilio rhannu costau cyffredinol ar y nifer o staff, nodwch nifer staff y prosiect yn erbyn pob prosiect. Er enghraifft, os ydych yn seilio rhannu costau cyffredinol ar y nifer o ddefnyddwyr prosiect, nodwch nifer y defnyddwyr yn erbyn pob prosiect. Os ydych yn rhannu mathau gwahanol o gostau cyffredinol mewn ffyrdd gwahanol, bydd angen i chi ddarparu niferoedd ar gyfer pob math o gost gyffredinol.

Dylai'r niferoedd fod ar y lefelau a ddisgwylir yn y cyfnod prosiect a bennwyd yng ngham 1. Os bydd unrhyw brosiect yn rhedeg am ran o'r flwyddyn, cofiwch ddarparu ar gyfer hyn. Er enghraifft, os ydych yn defnyddio niferoedd staff fel sail rhannu costau, a bydd prosiect yn cyflogi tri o staff am hanner y flwyddyn, nodwch 1/2 x 3 = 1.5 yn erbyn y prosiect hwnnw.

- **Cynnydd mewn gweithgarwch o ganlyniad i'ch prosiect**: mae'r daenlen yn cyfrifo'r gweithgarwch ychwanegol a gynhyrchir gan eich prosiect.
- **Canran o ganlyniad i'ch prosiect**: mae'r daenlen yn cyfrifo cyfran eich prosiect o bob math o gost gyffredinol.

## Cam 5: Nodwch gostau cyffredinol eich mudiad

Yn awr nodwch yr holl gostau cyffredinol ar gyfer eich mudiad cyfan. Rhestrwch y costau cyffredinol gwahanol yn eich mudiad. Os creoch nifer o fathau o gostau cyffredinol yng ngham 3, penderfynwch i ba fath y mae pob cost gyffredinol yn perthyn a nodwch y swm yn y golofn gyfatebol.

Nodwch y costau cyffredinol a ragfynegir ar gyfer y flwyddyn gyfan a bennwyd yng ngham 1. Os bydd y prosiect yn rhedeg dim ond am ran o flwyddyn, bydd y daenlen yn addasu ar gyfer hwn gan ddefnyddio'r ganran a gyfrifwyd yng ngham 1.5. Gweler y llyfryn "Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: arweiniad i ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol" am gyngor ar sut i ragfynegi costau cyffredinol yn y dyfodol.

## Cam 6: Costau llawn eich prosiect

Pan fyddwch wedi cwblhau'r pum cam cyntaf mae'r daenlen yn cyfrifo costau llawn eich prosiect yng Ngham 6. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth yng ngham 6, mae'r cyfan wedi'i gyfrifo drosoch chi.

Os ydych yn gofyn i ni ariannu'r prosiect cyfan, dyma'r ffigurau y dylech eu nodi ar y ffurflen gais. Os ydych yn bwriadu codi arian ar gyfer y prosiect o ffynonellau eraill, ewch ymlaen at Gam 7.

## Cam 7: Cyllid o ffynonellau eraill

Os bydd y prosiect yn codi incwm o ffynonellau eraill (er enghraifft, o gyrff dyfarnu grant eraill neu drwy godi tâl), nodwch y manylion yma. Nodwch yr holl incwm rydych yn disgwyl ei godi yng nghyfnod y prosiect. Dylech gynnwys yr holl incwm rydych yn rhagweld ei godi ar gyfer y prosiect hwn. Dylech gynnwys unrhyw gyfraniadau tuag at gostau cyfalaf a chostau cyffredinol a wneir gan arianwyr grant eraill.

Os oes cyfraniadau sydd ar gyfer costau cyffredinol yn unig, nodwch nhw o dan "ffynonellau incwm a all gael eu defnyddio dim ond ar gyfer costau cyffredinol".
Nodwch y swm y mae'r mudiad cyfan yn ei dderbyn o'r ffynonellau hyn. Bydd y daenlen yn dyrannu'r swm y mae'r prosiect yn ei dderbyn o'r ffynonellau hyn yn awtomatig.

# Y daenlen gyflogau

Os oes cyfraniadau sydd ar gyfer costau prosiect yn unig, nodwch nhw o dan "ffynonellau incwm a all gael eu defnyddio dim ond ar gyfer costau prosiect uniongyrchol y prosiect hwn".

Nodwch bob cyfraniad arall o dan "ffynonellau incwm eraill a all gyfrannu at gostau uniongyrchol y prosiect a chostau cyffredinol". Peidiwch â nodi cyfraniadau gennym ni.

## Cam 8: Y cyfraniad y gallwch ofyn i ni ei wneud

Pan gwblheir cam 7, mae'r daenlen yn cyfrifo'r uchafswm cyfraniad y gallwch ofyn i ni ei wneud tuag at eich prosiect yn awtomatig. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth yng ngham 8, mae'r cyfan wedi'i gyfrifo drosoch chi.

**Defnyddiwch y daenlen cyflogau i gyfrifo costau cyflog llawn eich staff. Mae hyn yn cynnwys eu tâl crynswth, cyfraniad yswiriant gwladol cyflogwyr ac unrhyw gyfraniad pensiwn cyflogwyr.**

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr

Os bydd cyflogai'n ennill uwchben trothwy penodol (y "trothwy enillion eilaidd"), mae'n rhaid i chi dalu cyfraniad yswiriant gwladol cyflogwyr mewn perthynas â'r cyflogai hwnnw.

Mae'n rhaid i hyn gael ei dalu i chi gan Gyllid a Thollau EM. Dyma gost ychwanegol cyflogi staff ac mae'n rhaid darparu ar ei chyfer yn eich cyfrifiadau costau staff.

Pennir y trothwy a chyfradd cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yng nghyllideb y llywodraeth bob blwyddyn. Maent yn ymgeisio am flwyddyn dreth (Ebrill-Mawrth) a gallant newid o un flwyddyn dreth i'r llall.

Gwiriwch fod y trothwy a'r gyfradd yswiriant gwladol cyflogwyr yn gywir ar gyfer cyfnod y prosiect. Os nad yw'r trothwy a chyfradd yswiriant gwladol cyflogwyr wedi'u pennu eto ar gyfer cyfnod y prosiect, defnyddiwch y cyfraddau diweddaraf sydd ar gael.

Os ydych yn ansicr siaradwch â'r sawl sy'n rheoli eich cyflogres neu gwiriwch wefan Cyllid a Thollau EM yn: http://www.hmrc.gov.uk/rates/nic.htm.

Os yw eich mudiad yn gweithredu cynllun pensiwn, gwiriwch gyda'r sawl sy'n rheoli eich cyflogres gan y gall effeithio ar gyfraddau yswiriant gwladol.

## Cyfraniadau pensiwn cyflogwyr

Os bydd gan unrhyw un o'ch cyflogeion hawl i gyfraniad pensiwn cyflogwyr, nodwch y gyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr yng ngholofn F, fel arall gadewch y golofn hon yn wag.

Mae'r daenlen yn tybio bod y cyfraniad pensiwn cyflogwyr yn ganran sefydlog o dâl crynswth cyflogwyr. Os nad dyna'r achos mae'n rhaid i chi gyfrifo'r cyfraniad pensiwn cyflogwyr ar wahân. Os ydych yn ansicr, siaradwch â'r sawl sy'n rheoli eich cyflogres.